Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Adolygiad a Diweddariad






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Gweinidog | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Cefndir | 6 |
| Gweithio mewn partneriaeth | 6 |
| Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 10 mlynedd – Adolygiad: Nod a dull gweithredu | 7 |
| Camau Allweddol | 8 |
| Cipolwg ar gynnydd | 9 |
| Denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel | 10 |
| Codi safonau a sgiliau | 14 |
| Buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd yn y sector | 18 |
| Cynllun 2017: Y weledigaeth ar gyfer y tymor hwy | 22 |
| Canfyddiadau Allweddol yr Adolygiad o'r Cynllun 10 Mlynedd | 24 |
| Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 10 mlynedd 2017: Diweddariad | 25 |
| Camau allweddol hyd at 2027 | 28 |




OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48478, ISBN digidol 978-1-83625-022-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair gan y Gweinidog

Yn rhinwedd fy rôl o fod yn Weinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar â chyfrifoldeb dros y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae, mae'n bleser gen i gyhoeddi'r ddogfen hon sy'n adolygu ac yn diweddaru cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar 10 mlynedd Llywodraeth Cymru.

Roedd y cynllun, a gyhoeddwyd yn 2017, yn nodi ein gweledigaeth i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu gwireddu ei botensial i'r eithaf a byw bywyd iach, llewyrchus a llawn.

Mae sicrhau bod gennym weithlu medrus a chymwys sy'n cael ei gefnogi'n llawn yn ganolog i gyflawni hyn. Datblygwyd y camau a nodwyd yn y cynllun i gydnabod yr heriau niferus a wynebwyd gan y sector yn 2017 ac i gefnogi'r broses o gyflwyno Cynnig Gofal Plant Cymru. Ym mis Rhagfyr 2018, nododd datganiad ysgrifenedig hynt y cynllun flwyddyn ar ôl ei gyhoeddi, gan ddangos bod cynnydd cynnar eisoes wedi'i wneud mewn meysydd megis cymorth busnes, meithrin gallu a recriwtio.

Mae'n bleser gennyf nodi ein bod wedi gwneud cynnydd pellach tuag at gyflawni nifer o'r camau a amlinellwyd yn 2017. Mae'r ddogfen hon, sy'n adolygu ac yn diweddaru'r cynllun, yn rhoi cyfle i fyfyrio ar ein cynnydd hyd yma ac yn ysgogi ein camau nesaf.

Mae ein diweddariad yn rhoi cyfle i mi bwysleisio fy ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i gyflawni ei botensial. Mae'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ganolog i hyn a dyma ein hased mwyaf gwerthfawr a phwysig.

Am weddill oes y cynllun hwn, byddwn yn gweithio'n ddiflino i ddenu'r bobl iawn i'r sector, a'u cefnogi i ddatblygu fel y gallant ddarparu gwasanaethau chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel. Rydym yn benderfynol o weld y gweithlu yn ffynnu ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod yn awyddus i aros a symud ymlaen yn y sector hynod werthfawr a gwerth chweil hwn.

Drwy barhau i wrando, ymateb a chydweithio â rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn sicrhau bod y camau y byddwn eu cymryd dros weddill cyfnod y cynllun yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae'r gweithlu yn ei wneud i fywydau plant a theuluoedd ledled Cymru.





**Jayne Bryant AS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl
a'r Blynyddoedd Cynnar

# Crynodeb Gweithredol

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae Blynyddoedd Cynnar 10 mlynedd yn 2017. Mae'r adolygiad a diweddariad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd tuag at gyflawni'r camau a amlinellwyd yn y Cynllun yn wreiddiol, ynghyd â'n camau nesaf.

Mae gweddill y ddogfen yn manylu ar ein cynnydd a'n nodau ar gyfer y dyfodol; rhoddir crynodeb o bob thema isod.

## Denu Recriwtiaid Newydd o Ansawdd Uchel

Mae angen inni wneud yn siŵr bod gofal plant a gwaith chwarae yn feysydd y mae pobl o bob cefndir am weithio ynddynt. Mae angen inni fod yn glir bod gweithio ym maes gofal plant a gwaith chwarae yn werth chweil, ac yn cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa.

Ers 2017, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu fframwaith denu a recriwtio GofalwnCymru. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd hyrwyddo penodol i arddangos y sector ac annog unigolion i ymuno ag ef, datblygu rhwydwaith o Lysgenhadon i dynnu sylw at y gyrfaoedd sydd ar gael, a chynnal presenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio gyda chydweithwyr ym maes cyflogadwyedd i ddenu unigolion i faes gofal plant drwy Cymru'n Gweithio, Porth Sgiliau a ReAct+.
- Sefydlu Grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol dynodedig i fynd ar drywydd camau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Byddwn nawr yn:

- Sefydlu Fforwm Gwaith Teg, sy'n cynnwys partneriaid allweddol o bob rhan o'r sector gofal plant a gwaith chwarae er mwyn rhoi mwy o lais i weithwyr ac ystyried y materion allweddol sy'n wynebu'r sector.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddenu mwy o recriwtiaid sy'n siarad Cymraeg i'r sector drwy gymorth ar gyfer cymwysterau Cymraeg a chymorth Cymraeg i ymarferwyr.
- Datblygu ein dull o gefnogi a datblygu gweithlu amrywiol ymhellach, gan weithio gyda phartneriaid Cwlwm, Gofal Cymdeithasol Cymru a Grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol.

## Codi safonau a sgiliau

Rydym am sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae yn fedrus ac yn wybodus am y ffordd orau o gefnogi a meithrin plant. Rydym hefyd am sicrhau bod y sector yn cynnal safonau uchel sy'n addas at y diben.

Ers 2017, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu a diweddaru'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod safonau a gofynion staff a lleoliadau yn addas at y diben.
- Cyflwyno cyfres newydd o gymwysterau gofal plant dwyieithog o Lefel 2 i 5, y bwriedir iddynt ddarparu safon gydnabyddedig a chyson o ansawdd uchel, yn ogystal â llwybrau cliriach i'r rhai sydd am gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd.

- Gweithio'n agos gyda Chwarae Cymru a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru i ddatblygu cymwysterau gwaith chwarae allweddol (Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP), Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (P3), a'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae).

Byddwn nawr yn:

- Ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ar gofrestru'n broffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae sy'n ceisio barn y sector ar gofrestru'r gweithlu.
- Parhau i gefnogi arweinyddiaeth yn y sector drwy gymorth rhwydwaith penodol yn ogystal â darparu cymwysterau (gan gynnwys cyllid ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg).
- Parhau i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflenwi dysgu gydol oes yn seiliedig ar anghenion y sector.

## Buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd yn y sector

Rydym am sicrhau bod gennym sector gofal plant a gwaith chwarae cryf sy'n gallu diwallu anghenion a bodloni dewisiadau teuluoedd. Rydym am gefnogi lleoliadau i feithrin eu gallu a'u galluogrwydd ymhellach.

Ers 2017, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cyflwyno rhyddhad ardrethi busnes o 100% i bob safle gofal dydd llawn cofrestredig. Yn dilyn adolygiad, mae'r rhyddhad hwn, a gyflwynwyd am dair blynedd yn wreiddiol (2019 – 2022), wedi'i ymestyn am dair blynedd arall tan fis Mawrth 2025.
- Gweithio gyda Busnes Cymru i ddarparu dau grant cymorth busnes (rhwng 2019 a 2022) gyda'r nod o gefnogi gwarchodwyr plant newydd a galluogi darparwyr gofal plant presennol i ehangu eu busnes drwy gyflogi staff newydd.
- Cysoni'r cyfraddau cyllido yr awr ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ar draws y sector.

Byddwn nawr yn:

- Parhau i gefnogi'r broses o ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg drwy gymorth penodol gan Swyddogion Datblygu a chyllid i gynyddu nifer y gwarchodwyr plant a'r clybiau ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Parhau i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed.
- Adolygu cyfradd y Cynnig Gofal Plant yn unol â'r cylch adolygu y cytunwyd arno, ac adolygu'r rhyddhad ardrethi busnes o 100%.



# Cefndir

Nododd y [cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar 10 mlynedd](), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae y mae parch mawr iddo fel dewis gyrfa, ac a gydnabyddir am y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae i gefnogi datblygiad plant. Mae'r cynllun hefyd yn ymwybodol o'r rôl economaidd allweddol y mae'r sector yn ei chwarae i gefnogi cyflogaeth ac addysg a hyfforddiant i rieni a gofalwyr, gan gydnabod y sector fel rhan allweddol o'r economi sylfaenol.

Nododd y cynllun gweithlu gamau allweddol y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddatblygu'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae a'r sector yn fwy cyffredinol yn ystod pumed tymor y Senedd (2016 – 2021). Datblygwyd y camau gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a chyfle i wireddu ei botensial. Mae cryfhau a thyfu'r gweithlu sy'n cefnogi ein plant yn allweddol i gyflawni'r nod sylfaenol hwn.

Nodir y camau yn y cynllun o dan dair thema:

- Denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel.
- Codi safonau a sgiliau.
- Buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd.

Amlinellodd y cynllun hefyd weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i wella ansawdd a gwireddu potensial y gweithlu.

# Gweithio mewn partneriaeth

Rydym wedi gweithio ar draws y Llywodraeth a chydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i ddatblygu'r camau a nodwyd yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n arwain y gwaith o wella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru ac yn bartner strategol allweddol inni wrth helpu i roi'r cynllun gweithlu ar waith.
- Timau gofal plant a chwarae awdurdodau lleol, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Partneriaid Cwlwm, y pum sefydliad gofal plant mwyaf blaenllaw yng Nghymru sy'n cynrychioli mathau gwahanol o leoliadau ym mo rhan o'r sector.
- Chwarae Cymru, yr elusen genedlaethol dros chwarae plant yng Nghymru.
- Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru, fforwm ar gyfer y sector gwaith chwarae sy'n ystyried materion sydd o bwys strategol i bob agwedd ar waith chwarae, addysg, hyfforddiant a chymwysterau yng Nghymru.

# Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 10 mlynedd – Adolygiad: Nod a dull gweithredu

Nod yr adolygiad hwn yw ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma tuag at gyflawni camau allweddol y cynllun. Cwmpas yr adolygiad yw gwneud y canlynol:

- Asesu'r cynnydd a wnaed tuag at fodloni'r ymrwymiadau gwreiddiol a nodwyd yn y cynllun gweithlu.
- Nodi pa weithgarwch arall sydd wedi digwydd i gefnogi'r gweithlu yn ystod y cyfnod hwn.
- Pennu a yw'r tair thema allweddol yn dal i fod yn berthnasol a pha weithgarwch sydd ei angen o hyd.

Mae ein dull gweithredu wedi cael ei lywio gan nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio. Rydym wedi gweithio i asesu'r cynnydd a wnaed tuag at fodloni'r ymrwymiadau gwreiddiol ac wedi cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i bennu perthnasedd themâu allweddol y cynllun wrth geisio cefnogi pawb yn y sector gofal plant a gwaith chwarae fel y gallwn sicrhau buddiannau i blant a theuluoedd yn yr hirdymor.

Mae'r adolygiad hwn o'r Cynllun 10 Mlynedd wedi rhoi'r cyfle inni fyfyrio ar y cynnydd a wnaed hyd yma a chanolbwyntio ar sut y gall Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Mae materion allweddol cynaliadwyedd, recriwtio a chadw wrth wraidd yr adolygiad hwn.



# Camau Allweddol

Yn 2017, gwnaethom nodi camau allweddol i’w cyflawni dros gyfnod y Cynllun. Mae’r camau hyn wedi’u nodi isod. Mae’r tudalennau nesaf yn asesu’r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud hyd yma tuag at gyflawni’r camau hyn ac yn amlinellu cyflawniadau eraill o dan bob themâu.

## Denu Recriwtiaid Newydd o Ansawdd Uchel

Datblygu fframwaith **Cyngor Gyrfa** i sicrhau cyngor gyrfaoedd cyfoes a chywir mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Annog Gyrfa ym **Maes Gofal Plant**. Treialu gyda **phrosiectau “Childcare Works”** Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd i roi profiad gwaith tymor byr o fewn y sector.

Galluogi’r Porth Sgiliau i ddarparu gwybodaeth i’r sector fel pwynt mynediad unigol ar gyfer cymorth cyflogadwyedd.



Sicrhau bod cymaint o gymorth â phosibl ar gael i’r rhai sydd am ddechrau ac aros mewn gwaith drwy ein rhaglen **Rheini, Gofal Plant a Chyflogaeth**.

Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i **annog mwy o amrywiaeth** ar draws y gweithlu.

## Codi Safonau a Sgiliau

Adolygu’r **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** i sicrhau eu bod yn addas i’r diben ac yn ymateb i anghenion newidiol y sector.

Cynnwys cymhwysedd galwedigaethol mewn llwybrau **Graddau Blynyddoedd Cynnar a Phlentyndod**. Cefnogi graddedigion o ddechrau eu busnesau gofal plant eu hunain.

Cynnig llwybr hyfforddiant a datblygu strwythuredig sy’n seiliedig **ar gyfres newydd o gymwysterau** ar gyfer y sector.

Cefnogi’r gallu i drosglwyddo gyda **modiwlau hyfforddiant dewisol** ar gyfer: Gweithwyr Cymorth Iechyd Blynyddoedd Cynnar, Cefnogi Plant ag ADY, Datblygiad Lleferydd ac Iaith a’r Cyfnod Sylfaen.

Datblygu **llwybr gyrfa ar gyfer gwarchodwyr plant a gofalwyr cartref**, yn seiliedig ar ddyfarniad cyn cofrestru diwygiedig (CYPOP5).

Gweithio gyda PETC Cymru i gefnogi **datblygiad y Gweithlu Gwaith Chwarae** i sicrhau y gall ymarferwyr ddatblygu yn y sector chwarae.

## Buddsoddi mewn Gallu a Galluogrwydd

Gweithio gyda **Busnes Cymru** i ddarparu gwasanaethau cymorth busnes i fusnesau gofal plant, e.e. gwella cynllunio ariannol.

Gweithio gyda **Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol** i gefnogi datblygiad y sector ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Archwilio ffyrdd o liniaru effaith **Ardrethi Busnes**, gan ystyried yr heriau unigryw sy’n wynebu’r sector.

Gweithio gyda **Banc Datblygu Cymru** i gefnogi busnesau gofal plant i gael mynediad i gyllid i dyfu ac ehangu.



Datblygu ymhellach ein rhaglen **Cynnydd ar gyfer Llwyddiant**, gan archwilio’r defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd igefnogi ymarferwyr iddatblygu eu sgiliau.



Darparu mynediad i hyfforddiant a datblygiad hyblyg a fforddiadwy drwy’r **polisi prentisiaeth** newydd. Parhau i gefnogi lefel 2, er mwyn galluogi ymarferwyr i gyflawni lefel 3.



# Cipolwg ar gynnydd

## A wnaeth Llywodraeth Cymru gyflawni'r camau a nodwyd yn y cynllun gwreiddiol?

### Denu Recriwtiaid Newydd o Ansawdd Uchel

Lansiwyd fframwaith denu a recriwtio GofalwnCymru.

Cynhaliwyd prosiect peilot Gofal Plant ar Waith. Recriwtiwyd cyfanswm o 178 o unigolion ar gyfer y prosiect peilot (sicrhaodd 52% o'r cyfranogwyr gyflogaeth, 33% yn y sector gofal plant).

Ymgymerwyd â gwaith gyda Busnes Cymru i gefnogi sgiliau buses yn y sector, gan gynnwys defnyddio Porth Sgiliau a chymorth un i un gan gynghorydd.



Talodd PaCE gost gofal plant â thâl ar gyfer 715 o rieni, gan eu galluogi i gwblhau hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu gael cyflogaeth rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2023.

Canolbwyntiwyd ar gynyddu amrywiaeth drwy sesiynau arbenigol, cyllid i Cwlwm a sefydlu Grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol.

### Codi Safonau a Sgiliau

Cwblhawyd adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2019 ac aethpwyd ar drywydd y canfyddiadau yn dilyn y pandemig. Diwygiwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ym mis Mai 2023.

Gweithiodd Gofal Cymdeithasol Cymru gyda Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru i ymgorffori cymhwysedd ymarferol mewn cymwysterau gradd.

Lansiwyd cyfres newydd o gymwysterau gofal plant (Lefel 2 hyd at Lefel 5) rhwng 2019 a 2020.

Mae'r cymhwyster ymarfer proffesiynol Lefel 4 yn cynnig modiwlau dewisol yn cynnwys adnabod anghenion ychwanegol a chefnogi rhieni.

Datblygwyd unedau cyn cofrestru mewn partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru, gan nodi cyfleoedd i ddatblygu yn y sector ehangach.

Datblygwyd ac ariannwyd cymwysterau gwaith chwarae allweddol mewn partneriaeth â Chwarae Cymru.

### Buddsoddi mewn Meithrin Gallu a Galluogrwydd

Darparwyd grantiau cymorth Busnes Cymru i warchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd llawn rhwng 2019 a 2021.

Pennwyd darpariaeth AB bellach drwy ymgysylltu â busnesau a phartneriaid allweddol megis Gofal Cymdeithasol Cymru a Cwlwm.

Cyflwynwyd rhyddhad ardrethi busnes o 100% i bob safle gofal dydd llawn cofrestredig am gyfnod o dair blynedd (2019 – 2022). Yn dilyn adolygiad, cafodd y cyfnod hwn ei ymestyn tan 31 Mawrth 2025.

Mae cyngor busnes gofal plant a chwarae penodol yn cynnwys defnyddio Banc Datblygu Cymru.



Cefnogodd Rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, y sector rhwng 2016 a 2023, drwy ddarparu mynediad wedi'i ariannu i gymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal plant a chwarae.



Rhaglen prentisiaethau sy'n cefnogi prentisiaethau ar lefel 2 i 5 yn y sector gofal plant, gan gynnwys prentisiaethau i'r rhai sy'n gweithio rhwng 10 a 16 awr yr wythnos.



# Denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel

## Plant sydd wrth wraidd y sector gofal plant a gwaith chwarae

**Pam y mae denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel yn bwysig i blant?**

Mae angen imi gael gofal bob amser a chael digon o bobl o'm hamgylch i wneud yn siŵr nad wyf yn cael niwed a fy mod yn gallu ffynnu ym mhob amgylchedd. Mae cael gofal y tu allan i fy nghartref yn bwysig er mwyn imi ddatblygu, ac er mwyn gwneud hyn, mae angen bod digon o bobl gymwysedig yn gweithio mewn lleoliadau o ofalu amdana i. Rwy'n ffynnu pan fydd y rhai sy'n gofalu amdana i yn dod o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol gan fod hyn yn fy helpu i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r byd.



**O dan y thema hon, gwnaethom ddweud y byddem yn gwneud y canlynol:**

- Datblygu cyngor gyrfaoedd.
- Treialu prosiect Gofal Plant ar Waith.
- Cefnogi Porth Sgiliau.
- Cynnig cymorth i rieni a gofalwyr drwy PaCE.
- Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gynyddu amrywiaeth ar draws y sector.

# Beth a wnaethom?

## Cyngor Gyrfaoedd ✓

Datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru fframwaith denu a recriwtio GofalwnCymru i godi proffil y sector a denu pobl i weithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchoedd penodol i arddangos y sector ac annog unigolion i ymuno ag ef, datblygu rhwydwaith o Lysgenhadon i dynnu sylw at y gyrfaoedd sydd ar gael, a chynnal presenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyrhaeddodd ei ymgyrch ddiweddaraf *Mae plant Cymru yn chwilio am weithwyr gofal plant* a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2023 fwy na 2.5 miliwn o bobl ac arweiniodd at 60,000 o ryngweithiadau pellach (â gwefannau y cyfeiriwyd atynt, ac ati).

## Gofal Plant ar Waith ✓

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer Prosiect Peilot Gofal Plant ar Waith Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru. Ffocws y prosiect peilot oedd denu unigolion o ansawdd uchel a oedd yn meddu ar y sgiliau a'r ymddygiadau cywir i weithio gyda'n plant bach, a chefnogodd gyfranogwyr i feithrin y sgiliau i'w galluogi i ddod yn ymarferwyr cymwysedig yn y dyfodol. Rhoddodd y prosiect gymorth i unigolion di-waith ac economaidd anweithgar gael cyflogaeth yn y sector gofal plant. Recriwtiwyd cyfanswm o 178 o unigolion ar gyfer y prosiect, sicrhaodd 52% o'r cyfranogwyr gyflogaeth, 33% yn y sector gofal plant.

Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r prosiect peilot ym mis Gorffennaf 2021. Daeth cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect i ben ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r prosiect yn parhau mewn sawl ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

## Porth Sgiliau ✓

Adnodd ymgysylltu a chyfeirio yw Porth Sgiliau a gynhelir gan Busnes Cymru. Mae'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael i feithrin sgiliau a recriwtio, e.e. prentisiaethau. Mae ein gwaith gyda Busnes Cymru wedi golygu bod gan gynghorwyr ddealltwriaeth well o gyfansoddiad ac anghenion y sector gofal plant a chwarae a'r ffordd orau o'i gefnogi.

## Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ✓

Lansiwyd PaCE ym mis Gorffennaf 2015, wedi'i ariannu drwy Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae PaCE yn ariannu gofal plant i rieni er mwyn eu galluogi i gwblhau hyfforddiant a gweithgareddau i'w symud yn agosach at y farchnad lafar. Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2023, talodd PaCE gost gofal plant â thâl ar gyfer 715 o rieni, gan eu galluogi naill ai i gwblhau hyfforddiant, profiad o wirfoddoli neu symud i gyflogaeth. Roedd hyn yn cynnwys 45 o rieni anabl a 37 o rieni o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.



## Annog mwy o amrywiaeth ✓

Mae'r Cynllun Gweithlu yn nodi ein huchelgais i ddatblygu gweithlu amrywiol a chynhwysol. Mae hyn wedi cynnwys datblygu amrywiaeth eang o astudiaethau achos (GofalwnCymru) i geisio annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i mewn i'r sector, gan gynnwys dynion, siaradwyr Cymraeg a'r rhai o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Gwnaethom weithio gyda Busnes Cymru i ddatblygu sesiynau ag arbenigwyr ym maes gofal plant, yn cynnwys papur gwyntyllu ar bwysigrwydd amrywiaeth  siaradwyr arbenigol ar recriwtio a chadw yn y sector gofal plant, gan gynnwys gwerth recriwtio mwy o ddynion i'r gweithlu.

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022 a sefydlu Grŵp Llywodraethu Gofal Plant a Chwarae Cymru Wrth-hiliol i'n helpu i gyflawni ein camau allweddol. Rydym wedi darparu cyllid i Cwlwm er mwyn helpu i wireddu ein gweledigaeth o gael Cymru Wrth-hiliol. Mae hyn yn cynnwys datblygu adnoddau dysgu proffesiynol i gefnogi ymarferwyr gofal plant a chanolbwyntio ar hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau ethnig lleiafrifol. Mae'r cyllid ar gyfer Cwlwm hefyd wedi helpu i ddatblygu prosesau recriwtio cynhwysol a darparu hyfforddiant sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth. Mae cwrs Cyflwyniad i Ofal Plant Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael ei ddarparu i amrywiaeth o gymunedau a charfanau ledled Cymru, gan gynnwys Grŵp Cymunedol Affricanaidd yng ngorllewin Cymru, lle y cwblhaodd 23 o bobl y cwrs. Gwnaed cysylltiadau â Cymru'n Gweithio yn Abertawe er mwyn rhoi cymorth cyflogadwyedd i'r rhai a gwblhaodd y cwrs.

**Yn ychwanegol at y camau y gwnaethom eu cymryd mewn perthynas ag amcanion gwreiddiol y cynllun, rydym hefyd wedi gwneud y canlynol…**

- Datblygu tudalen we benodol ar weithio ym maes gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar ar wefan Cymru'n Gweithio, gan arddangos, ochr yn ochr ag ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023, y gyrfaoedd a'r cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa sydd ar gael ym mhob rhan o'r sector gofal plant a gwaith chwarae. Dengys data gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r dudalen we hon yn ystod y cyfnod o bythefnos yn dilyn yr ymgyrch (91 yn ystod y cyfnod o bythefnos rhwng 9 a 23 Ionawr o gymharu â 18 yn ystod cyfnod o bythefnos yn y mis blaenorol, rhwng 5 a 19 Rhagfyr) At hynny, aeth mwy o bobl ymlaen i geisio rhagor o wybodaeth am weithio yn y sector.

- Comisiynu prosiect mapio'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae er mwyn ein helpu i feithrin dealltwriaeth well o gyfansoddiad y sector a chreu cyfleoedd i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio.

- Helpu lleoliadau i dalu  gorbenion, drwy gynnig rhyddhad ardrethi busnes o 100%, a chynyddu cyfradd yr awr y Cynnig Gofal Plant er mwyn helpu lleoliadau i gynnig cyfraddau cyflog rhesymol i'w staff.

- Darparu cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer dau brosiect peilot: cwrs rhagarweiniol er mwyn helpu i recriwtio unigolion i'r sector, gan gynnig hyfforddiant cychwynnol â chymorth i'r rhai sy'n ymgymryd â'r rhaglen. a llwybr pontio peilot i fapio cymwysterau o sectorau eraill er mwyn galluogi unigolion i gael eu cyflogi yn y sector gofal plant.

- Darparu cyllid i Chwarae Cymru, a gomisiynodd Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021, sy'n rhoi cipolwg ar y gweithlu chwarae yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar dri maes sy'n gorgyffwrdd: Strategaeth; cysylltiadau rhwng strategaeth ac ymarfer; a'r gweithlu chwarae ei hun.

- Darparu cyllid i gonsortiwm Cwlwm weithio gyda Cholegau Addysg Bellach a Phrifysgolion i ddenu mwy o bobl ifanc i'r gweithlu gofal plant cyfrwng Cymraeg a datblygu asedau marchnata a chyfathrebu i hyrwyddo manteision gyrfaoedd yn y sector gofal plant a gwaith chwarae er mwyn gwella cyfraddau recriwtio a chadw.

# Codi safonau a sgiliau

## Plant sydd wrth wraidd y sector gofal plant a gwaith chwarae

**Pam y mae codi safonau a sgiliau yn y gweithlu yn bwysig i blant?**

Mae angen imi fod yn ddiogel a chael gofal. Mae angen i'r bobl sy'n gofalu amdana i ddeall yr hyn sydd ei angen arna i wrth imi dyfu, a deall pa brofiadau ac amgylchiadau sy'n fy ngalluogi i ffynnu. Mae hyn yn fy helpu i ddatblygu fy sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu ac amrywiaeth gyfan o sgiliau eraill, y bydda i'n dibynnu arnyn nhw yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol i fod yn oedolyn meithringar sy'n galluogi, ac mae angen i'r rhai sy'n gofalu amdana i feddu ar y wybodaeth hon er mwyn sicrhau fy mod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.



**O dan y thema hon, gwnaethom ddweud y byddem yn gwneud y canlynol:**

- Adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
- Cyflwyno cymwysterau newydd.
- Datblygu llwybrau gyrfa i warchodwyr plant.
- Ymgorffori cymhwysedd galwedigaethol mewn graddau blynyddoedd cynnar a phlentyndod.
- Datblygu modelau hyfforddiant dewisol.
- Cefnogi'r gweithlu gwaith chwarae.

## Beth a wnaethom?

### Safonau Gofynnol Cenedlaethol ✓

Yng ngoleuni newidiadau sylweddol yn y sector, gan gynnwys cynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant o 8 i 12 oed yn 2016, cwblhawyd adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2019. Aethpwyd ati i ymateb i'r argymhellion yn 2021. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2022 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion yn 2023. Cyhoeddwyd y Safonau diwygiedig ym mis Mai 2023.

### Graddau Plentyndod a Blynyddoedd Cynnar ✓

Gweithiodd Gofal Cymdeithasol Cymru gyda Sefydliadau Addysg Uwch ledled Cymru i ymgorffori cymhwysedd ymarferol mewn cymwysterau gradd yn dilyn pryderon nad oedd y graddau blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru yn cynnwys y cymhwysedd seiliedig ar waith angenrheidiol i alluogi ymarferwyr i gael eu cyflogi ar ôl gadael y brifysgol.

Diweddarwyd fframwaith Cymwysterau Gofynnol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i gynnwys dim ond graddau sy'n dangos cymhwysedd ymarferol gofynnol (statws ymarferydd).

### Modiwlau hyfforddiant dewisol ✓

Mae'r cymhwyster Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant Lefel 4 yn cynnig modiwlau dewisol sydd â'r nod o ddatblygu ymarfer proffesiynol yr unigolyn (Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta; Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Drwy ddilyn un o'r llwybrau hyn, nod y cymhwyster hwn yw meithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiadau a'r sgiliau sy'n ategu eu rôl yn y sector, gan gynnig llwybr cynnydd i'r rheini a all fod yn dymuno datblygu eu hymarfer proffesiynol.

### Cyfres newydd o gymwysterau ✓

Gwnaethom gyflwyno cyfres newydd o gymwysterau gofal plant dwyieithog, gyda'r nod o ddarparu safon gydnabyddedig a chyson o ansawdd uchel, yn ogystal â llwybrau cliriach i'r rhai sydd am gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Lansiwyd cymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2 a Lefel 3 ym mis Medi 2019 a lansiwyd y rhai ar Lefel 4 a Lefel 5 ym mis Medi 2020. Mae'r cymwysterau'n ymgorffori egwyddorion dysgu allweddol y blynyddoedd cynnar ac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan barchu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn un o dri llwybr dewisol y cymhwyster ymarfer proffesiynol Lefel 4.

Mae'r cymwysterau hyn, sydd ar gael yn ddwyieithog, yn ymgorffori egwyddorion dysgu allweddol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac yn cefnogi ein huchelgais i wella gallu ymarferwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cefnogodd rhanddeiliaid allweddol yn y sector, gan gynnwys Cwlwm a Chwarae Cymru, waith Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu'r cymwysterau, ac maent wedi'u hyrwyddo'n eang ym mhob rhan o'r sector.

Datblygwyd fframweithiau prentisiaethau i gefnogi'r cymwysterau newydd.

## Datblygu'r gweithlu gwaith chwarae ✓

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Chwarae Cymru a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru i ystyried y ffordd orau o gefnogi'r sector gwaith chwarae a gofal y tu allan i oriau'r ysgol. Ariannwyd cymwysterau gwaith chwarae allweddol (Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) a Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (P3) drwy raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, sydd â'r nod o wella ansawdd a galluogi cynnydd yn y sector gwaith chwarae.

Darparwyd cyllid hefyd i ddatblygu'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae, gan sicrhau y gall y rheini sy'n meddu ar gymhwyster Lefel 3 mewn gofal plant/addysg gael y cymorth gorau i ddod yn weithiwr chwarae, sef y cymhwyster sy'n ofynnol i weithio mewn lleoliadau gwaith chwarae a gofal y tu allan i oriau'r ysgol.

## Llwybr gyrfa ar gyfer gwarchodwyr plant a gofalwyr yn y cartref ✓

Lluniwyd fframwaith GofalwnCymru i ddangos yr amrywiaeth o rolau sydd ar gael ym mhob rhan o'r sector a'r cyfleoedd i ddatblygu gyrfa ym maes gofal plant a gwaith chwarae. Mae astudiaethau achos yn tynnu sylw at rôl bwysig gwarchodwyr plant.

At hynny, datblygwyd unedau cyn cofrestru mewn partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru, gan nodi cyfleoedd i ddatblygu yn y sector ehangach. Cyhoeddwyd Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 yn dilyn cyhoeddi deddfwriaeth newydd. Mae hyn yn golygu bod Gofalwyr yn y Cartref 'a gymeradwywyd' bellach yn meddu ar un o'r cymwysterau a restrir yn fframwaith cymwysterau Gofal Iechyd Cymru, sy'n cysoni'r â'r gofynion ar gyfer Gofalwyr yn y Cartref a'r rhai ar gyfer Gwarchodwyr Plant.



**Yn ychwanegol at y camau y gwnaethom eu cymryd mewn perthynas ag amcanion gwreiddiol y cynllun, rydym hefyd wedi gwneud y canlynol…**

- ✓ Darparu cyllid i Cwlwm ar gyfer hyfforddiant a chymorth Cymraeg er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau. Bydd y cyllid yn helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu presennol er mwyn gwella sgiliau Cymraeg, ac yn darparu rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol i siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithlu.
- ✓ Comisiynu Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023.
- ✓ Darparu cyllid i Chwarae Cymru, sydd wedi cyhoeddi Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru yn 2020, sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu mewn perthynas â chwarae plant, ac wedi datblygu siart lif cymwysterau i'r rhai sy'n gweithio neu'n chwilio am waith yn y sector gwaith chwarae.
- ✓ Darparu cyllid i Cwlwm gynnal ymchwil gyda'r sector er mwyn deall pa gymorth sydd ei angen ar staff ac ymarferwyr i ddatblygu, gwella ac olrhain eu datblygiad proffesiynol, eu cymwysterau a'u sgiliau.
- ✓ Darparu cyllid i Gofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant a chydnabod cymwysterau rhyngwladol er mwyn galluogi unigolion o wledydd eraill i ymuno â'r gweithlu yng Nghymru.
- ✓ Cyhoeddi'r adroddiad ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ym mis Chwefror 2023. Cynhaliwyd adolygiad rhwng 2019 a 2022 yn dilyn adolygiad manwl a chydweithredol gan y Grŵp Llywio o waith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi chwarae.

# Buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd yn y sector

## Plant sydd wrth wraidd y sector gofal plant a gwaith chwarae

**Pam y mae buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd yn y sector yn bwysig i blant?**

> Mae angen imi allu cael gofal plant a chwarae y tu allan i fy nghartref. Mae angen imi allu dewis y math o leoliad sy'n addas i mi, p'un a yw hynny'n golygu gwarchodwr plant, cylch cyfrwng Cymraeg neu leoliad chwarae. Mae angen sector gofal plant a chwarae cadarn ac amrywiol arna i, sydd â digon o leoedd i mi a phlant eraill.



**O dan y thema hon, gwnaethom ddweud y byddem yn gwneud y canlynol:**

- Darparu cymorth busnes drwy Cymorth Busnes.
- Gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu cymorth rhanbarthol.
- Ystyried ffyrdd o liniaru effaith ardrethi busnes.
- Cefnogi'r sector drwy Fanc Datblygu Cymru.
- Datblygu a chynnal rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.
- Darparu prentisiaethau.

## Beth a wnaethom?

### Busnes Cymru ✓

Rydym wedi gweithio gyda Busnes Cymru i ddarparu cymorth busnes ar gyfer y sector. Lansiodd Llywodraeth Cymru ddau grant cymorth busnes ym mis Medi 2019 gyda'r nod o gefnogi gwarchodwyr plant newydd a galluogi darparwyr gofal plant presennol i ehangu. Cafodd gwerthusiad ei gynnal yn 2021-22 a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

Er mwyn cydnabod anghenion busnes penodol y gweithlu, comisiynwyd a datblygwyd cronfa o wybodaeth cymorth busnes ar gyfer y sector (2019). Yn 2020, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda phartneriaid allweddol i wneud y gronfa hon yn fwy hygyrch a hawdd ei defnyddio. Datblygwyd a lansiwyd tudalen we Cymorth Busnes i Ddarparwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae yn 2021. Mae'r dudalen we hon yn nodi rôl cyrff gwahanol a'r ffordd y gallant gefnogi lleoliadau, ynghyd â'r cymorth lleol a chenedlaethol sydd ar gael.

Aeth sesiynau arbenigol Gofal Plant Busnes Cymru yn fyw ym mis Mawrth 2022. Mae'r rhain yn cynnwys siaradwyr arbenigol ar bynciau 'Cymorth Busnes i Ddarparwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae' a 'Recriwtio a Chadw Staff yn y Sector Gofal Plant'. Mae pecyn adnoddau hefyd ar gael.

### Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ✓

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar waith i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol. Pennir darpariaeth AB a darpariaeth arall drwy ymgysylltu â busnesau, gyda phartneriaid allweddol megis Gofal Cymdeithasol Cymru a Cwlwm yn bresennol i nodi anghenion darparwyr a dylanwadu ar y cymwysterau a ddarperir mewn ardaloedd partneriaeth.

### Ardrethi Busnes ✓

Yn dilyn ymgynghoriad, cyflwynwyd rhyddhad ardrethi busnes o 100% i bob safle gofal dydd llawn cofrestredig am gyfnod o dair blynedd (2019 – 2022). Cynhaliwyd adolygiad o ryddhad ardrethi busnes ar gyfer eiddo gofal plant cofrestredig ym mis Gorffennaf 2021. Yn dilyn yr adolygiad, ymestynnwyd y rhyddhad ardrethi busnes o 100% tan 31 Mawrth 2025 er mwyn parhau i gefnogi cynaliadwyedd lleoliadau.

### Banc Datblygu Cymru ✓

Wrth ddatblygu ein tudalen we bwrpasol ar gymorth busnes i ddarparwyr gofal plant a gwaith chwarae, gwnaethom sicrhau bod gwybodaeth am Fanc Datblygu Cymru ar gael i helpu busnesau gofal plant dyfu ac ehangu. Cafodd astudiaeth achos yn nodi sut mae (Meithrinfa Ddydd y Jiráff Gwyrdd) wedi cael budd o'r cymorth hwn, hefyd ei datblygu.

## Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

Cafodd y sector fudd o Raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, rhwng 2016 a 2023, wrth iddo ariannu mynediad i nifer o gymwysterau ar gyfer ymarferwyr gofal plant a chwarae. Darparodd Llywodraeth Cymru fwy na £4.5m dros gyfnod y Rhaglen yn ychwanegol at y £4.7m a ddarparwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, er mwyn sicrhau y gallai'r Rhaglen gael ei chynnal ar sail Cymru gyfan. Ffocws allweddol y rhaglen oedd helpu ymarferwyr a lleoliadau i ennill y cymwysterau gofynnol i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Ariannodd y rhaglen nifer o lwybrau er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefelau 2 a 3 ledled Cymru. Treialodd y rhaglen hefyd brentisiaethau i'r rhai a oedd yn gweithio 10-16 awr yr wythnos nad oeddent yn rhan o'r Fframwaith Prentisiaethau ehangach.

## Polisi Prentisiaethau

Mae rhaglen Prentisiaethau Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl allweddol i gefnogi'r sector i hyfforddi ac uwchsgilio. Gwnaethom sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi prentisiaethau lefel mynediad (lefel 2) er mwyn helpu i gyflwyno'r cymwysterau newydd. Fe wnaethom hefyd dreialu prentisiaethau i'r rhai a oedd yn gweithio 10-16 awr yr wythnos yn rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant.



**Yn ychwanegol at y camau y gwnaethom eu cymryd mewn perthynas ag amcanion gwreiddiol y cynllun, rydym hefyd wedi gwneud y canlynol…**

- Ehangu'r Cynnig Gofal Plant i rieni mewn addysg a hyfforddiant, cysoni'r gyfradd gyllido ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant a chynyddu'r gyfradd hon o £4.50 i £5 yr awr, gan ymrwymo i adolygu'r gyfradd bob tair blynedd.

- Darparu grantiau cyfalaf er mwyn helpu i gynyddu capasiti yn y sector, yn benodol i feithrin capasiti er mwyn cefnogi'r broses o ehangu rhaglen Dechrau'n Deg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Cychwyn ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar i bob plentyn 2 oed drwy ein Rhaglen Dechrau'n Deg.

- Datblygu system ddigidol newydd i weinyddu'r Cynnig Gofal Plant, gan ddarparu system gyflym a hawdd ar gyfer prosesu taliadau lleoliadau gofal plant.

# Cynllun 2017: Y weledigaeth ar gyfer y tymor hwy

Yn ychwanegol at y camau o dan y tair thema, nododd y Cynllun 10 mlynedd hefyd elfennau allweddol gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Roedd y rhain yn adeiladu ar y tair thema a amlinellir uchod ac yn pennu cyfeiriad bwriadedig ar gyfer polisi'r gweithlu rhwng 2017 a 2027.

Nodir isod elfennau gwreiddiol y weledigaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd tuag at wireddu'r weledigaeth. Mae'r weledigaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu bellach wedi'i hymgorffori yng ngweledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, a amlinellir yn y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

| Cyflawni'r Weledigaeth 10 Mlynedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno cymwysterau newydd ar Lefelau 4 a 5 i gefnogi llwybr galwedigaethol ar gyfer ymarferwyr i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd.<br><br>Gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, datblygu fframwaith cenedlaethol o gymwysterau a hyfforddiant yn amlinellu safonau ymarfer y sector. | Diffinio llwybr gyrfa i helpu ymarferwyr wybod beth sydd ei angen arnynt ddatblygu.<br><br>Mapio llwybrau cynnydd i broffesiynau eraill yn y gweithlu plant ehangach. | Cyflwyno cofrestru proffesiynol i gydnabod datblygiad proffesiynol parhaus a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.<br><br>Ymgynghori ar y cynnig a cheisio safbwyntiau'r sector. | Darparu system Addysg Plentyndod Cynnar a Gofal mwy integredig yng Nghymru.<br><br>Rhesymoli disgwyliadau a gofynion ar gyfer pob ymarferydd addysg gynnar a gofal. | Datblygu system arolygu ar y cyd ar gyfer meithrinfeydd sector preifat a thrydydd sector sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen. | Adeiladu gweithlu dwyieithog drwy gynnig mwy o lwybrau i newydd-ddyfodiaid ac ymarferwyr presennol i ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg, i wella eu sgiliau Cymraeg a'r sgiliau penodol sydd eu hangen i weithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cefnogi'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau Cyfnod Sylfaen i ddarparu'r cwricwlwm yn Gymraeg.<br><br>Darparu hyfforddiant i ymarferwyr mewn lleoliadau Saesneg i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith. |

| Cyflawni'r weledigaeth 10 mlynedd: Beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lansiwyd cymwysterau newydd yn 2019 (Lefel 2/3) a 2020 (Lefel 4/5).<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cynnal y fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector gofal plant a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru sy'n cynnal y fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector gwaith chwarae. Mae'r ddau wedi datblygu siartiau llif sy'n nodi'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae. | Lansio fframwaith GofalwnCymru yn 2019 sy'n anelu at godi proffil y sector, er mwyn hyrwyddo gyrfa ym maes gofal plant a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig.<br><br>Prosiect mapio yn ystyried sut y gall unigolion sy'n meddu ar gymwysterau mewn sectorau cysylltiedig eraill symud i rôl gofal plant. | Yn dilyn Adolygiad Annibynnol o gofrestru'r sector gofal plant a gwaith chwarae yn broffesiynol, gwnaethom sefydlu gweithgor cofrestru proffesiynol.<br><br>Ar y cyd â'r gweithgor cofrestru proffesiynol, lansiwyd ymgynghoriad ar gofrestr ar gyfer gweithlu ym mis Tachwedd 2023. | Yn 2019, gwnaethom lansio dull o ymdrin â chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar, sef addysg a gofal plentyndod cynnar yn flaenorol.<br><br>Bydd chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yn adeiladu ar raglenni cyfredol ac yn datblygu'r ddarpariaeth addysg a gofal meithrin yng Nghymru ymhellach, er mwyn sicrhau bod pob baban a phlentyn bach, ni waeth beth fo'i gefndir, yn cael ei gefnogi i gael y dechrau gorau mewn bywyd a chyfle i wireddu ei botensial yn llawn. | Dechreuodd AGC ac Estyn arolygu lleoliadau rheoleiddiedig heb fod yn ysgolion a oedd yn gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran amser yn 2019 y erbyn fframwaith arolygu ar y cyd.<br><br>Yn ystod yr arolygiadau ar y cyd hyn, caiff gofal pob plentyn hyd at 12 oed ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir eu harolygu. | Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu £3.78m dros dair blynedd (2022 – 2025) i gefnogi gweithgareddau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae rhaglen Croesi'r Bont wedi ehangu i feithrin sgiliau trochi Cymraeg ymarferwyr gofal plant ledled Cymru. |

# Canfyddiadau Allweddol yr Adolygiad o'r Cynllun 10 Mlynedd

Canfu'r adolygiad fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at gyflawni'r camau a nodwyd o dan y tair thema allweddol yn y cynllun 10 mlynedd. Yn benodol:

- Mae fframwaith denu a recriwtio GofalwnCymru wedi arwain at ddatblygu cyfoeth o astudiaethau achos sy'n benodol i'r sector ac ymgyrchoedd gofal plant a gwaith chwarae pwrpasol. Mae'r ymgyrchoedd wedi ymateb i bryderon parhaus am recriwtio a chadw ac effeithiau COVID-19 ar y sector. Bydd gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu gwefan GofalwnCymru yn sicrhau ffocws cliriach ar y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar, gan helpu i recriwtio gweithlu amrywiol. Bydd datblygu llwybr gyrfa clir ar gyfer pob rôl ym mhob rhan o'r sector yn un o nodweddion craidd y cynllun diwygiedig.
- I gydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu'r sector o ran recriwtio a chadw, rydym wedi sicrhau ymatebion rhagweithiol pellach. Er enghraifft, drwy ddiweddaru'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig, rydym wedi diwygio safon 13 i ganiatáu i 20% o'r staff mewn lleoliadau gofal dydd llawn a 10% o'r staff mewn lleoliadau gofal sesiynol neu fynediad agored sy'n gweithio tuag at gymhwyster gael eu cynnwys yn y cymarebau cymwysterau staff. At hynny, rydym wedi darparu cyllid i Gofal Cymdeithasol gynnal dau brosiect peilot sydd â'r nod o ddenu unigolion i'r sector; cyflwyniad am ddim i gwrs gofal plant a phrosiect mapio cymwysterau.
- Mae llawer o'r camau a nodwyd yn y cynllun wedi cael eu gwerthuso neu eu hadolygu. Mae hyn wedi sicrhau bod unrhyw barhad, diwygiadau neu gamau pellach wedi cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn. Er enghraifft, wrth i raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant ddod i ben, mae'r gwersi a ddysgwyd drwy'r rhaglen a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wedi'u nodi er mwyn datblygu rhaglen hyfforddiant a chymorth ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu.
- Cafodd ein cyfres newydd o gymwysterau ei datblygu a'i lansio ar amser yn 2019 a 2020 er gwaethaf dyfodiad pandemig COVID-19, ac mae gwaith yn parhau i gael ei wneud er mwyn helpu i gwblhau'r broses.
- Mae gan y cynllun rôl alluogi economaidd glir ac, o ganlyniad, rydym wedi datblygu cysylltiadau trawslywodraethol cryf sydd wedi ein galluogi i sicrhau'r cymorth gorau posibl ar gyfer y sector drwy fentrau cenedlaethol fel ReAct a thrwy ddatblygu tudalen we benodol ar weithio ym maes gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar ar wefan Cymru'n Gweithio.
- Gwnaethom gyflwyno ac ymestyn y Rhyddhad Ardrethi Busnes o 100% ar gyfer safleoedd gofal plant cofrestredig. Bydd ymestyn y rhyddhad tan 30 Mawrth 2025 yn darparu tua £10m o gymorth ychwanegol ar gyfer safleoedd gofal plant cofrestredig. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn helpu'r sector i ateb yr heriau economaidd y gall fod yn eu hwynebu, gan gynnwys cynnydd mewn cyflogau staff, pensiwn a chostau gweithredu eraill.

- Rydym wedi parhau i gefnogi cynaliadwyedd y sector drwy ddarparu cyllid ar gyfer cymwysterau gofynnol a chynyddu cyfradd y Cynnig Gofal Plant – rydym wedi ymrwymo i adolygu'r gyfradd hon bob tair blynedd. Mae cynlluniau cyllid cyfalaf hefyd wedi cael eu dylunio i helpu i gynyddu capasiti ym mhob rhan o'r sector.
- Cafodd ein cynlluniau ar gyfer cofrestru proffesiynol eu hoedi yn ystod y pandemig, ac fe nododd yr adolygiad annibynnol y camau y mae angen eu cymryd i ystyried sefydlu cofrestr ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.



## Y camau nesaf

Mae'r adolygiad yn gosod sylfaeni cadarn y gallwn adeiladu arnynt ac yn nodi meysydd y gallwn eu datblygu ymhellach. Eir ar drywydd meysydd gwaith allweddol nad ydynt wedi cael eu cwblhau eto drwy'r cynllun diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu llwybrau gyrfa clir ar gyfer pob rôl ym mhob rhan o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.
- Edrych ar gofrestru'n broffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae gyda'r sector.

At hynny, drwy gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, rydym yn ehangu ein gwaith yn y maes hwn er mwyn helpu i gefnogi a thyfu gweithlu amrywiol. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi ein helpu i ddeall maint yr her, a'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer ein camau nesaf. Bydd gweithgarwch a chynnydd ar ein taith wrth-hiliol yn parhau dros gyfnod y cynllun hwn a thu hwnt. Erys y gweithlu gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid allweddol yn y sector i gefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun gweithlu diwygiedig, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

# Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 10 mlynedd 2017: Diweddariad

## Y Camau Nesaf ar gyfer y cynllun gweithlu 10 mlynedd

Gan adeiladu ar yr adolygiad o'r camau a gymerwyd i gyflawni uchelgeisiau'r cynllun gweithlu 10 mlynedd, mae'r adran hon yn amlinellu'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf i barhau â'r gwaith a bodloni amcanion y cynllun gweithlu 10 mlynedd.

## Cyflwyniad

Ers lansio'r cynllun gweithlu 10 mlynedd ym mis Rhagfyr 2017, mae llawer wedi newid, ac mae pandemig y Coronafeirws, heriau o ran recriwtio a chadw a'r argyfwng costau byw, wedi cael effaith fawr ar y gweithlu.

Mae'r diweddariad hwn wedi rhoi cyfle i asesu ac adolygu cyfeiriad a gweledigaeth ein cymorth ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Fel rhan o hyn, mae gwaith wedi'i wneud i bennu a yw'r tair thema wreiddiol yn dal i fod yn berthnasol yng ngoleuni'r tirlun gofal plant a gwaith chwarae presennol, ac i sicrhau bod y camau nesaf yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gyfredol a'r weledigaeth ddiwygiedig ar gyfer chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar.

Mae'r diweddariad yn defnyddio gwybodaeth a data a gasglwyd drwy ymgysylltu â phartneriaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol ynglŷn â'r heriau/materion sy'n effeithio ar ddarparwyr. Mae gwaith ymgysylltu â darparwyr a rhieni dros y blynyddoedd diwethaf wedi rhoi tystiolaeth bellach o'r materion allweddol sy'n wynebu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau neu'n eu defnyddio. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r heriau/materion gwahanol sy'n wynebu'r sector, a nodwyd drwy adroddiadau yn cynnwys Sgwrs Genedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Arolwg Blynyddoedd Cynnar a gomisiynwyd gan Cwlwm, yn ogystal â thrwy weithdy penodol i randdeiliaid a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023.

Mae cyhoeddiadau allweddol megis Gwarchod y Dyfodol, yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant, y Canllaw i Waith Teg a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a gwaith ar Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar hefyd wedi'u hystyried fel rhan o'r diweddariad. Drwy ystyried y tirlun gofal plant a gwaith chwarae a thrwy gydweithio â'n rhanddeiliaid, rydym nawr yn sicrhau ein bod yn nodi ffocws, blaenoriaethau a chamau allweddol ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun.

## Y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae

Mae'r diweddariad hwn i'n cynllun gweithlu 10 mlynedd yn rhoi'r cyfle i Lywodraeth Cymru nodi'n glir ein hymrwymiad i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.

Mae Llywodraeth Cymru a chymunedau ledled Cymru yn gwerthfawrogi pawb sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae. Drwy ddiweddaru ein cynllun gweithlu 10 mlynedd, rydym yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn gweithio gyda'r sector a phartneriaid i hyrwyddo'r sector a'r rôl allweddol y mae'n ei chwarae i gefnogi a meithrin plant.

Mae'r diweddariad hefyd yn ein galluogi i dynnu sylw at y rôl hanfodol y mae'r gweithlu yn ei chwarae i gefnogi plant a'u teuluoedd.

Gwyddom pa mor werth chweil y gall gyrfa ym maes gofal plant a gwaith chwarae fod, ac rydym am gefnogi'r gweithlu i ddatblygu a thyfu fel y gall gynnig darpariaeth o'r ansawdd uchaf i blant Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, rydym yn ymrwymedig i wneud y canlynol:

> "datblygu gweithlu amrywiol sy'n ffynnu, yn cael ei werthfawrogi, ac yn cael ei barchu gan bawb, ac sy'n ymrwymedig i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel".

Rydym yn cydnabod y rôl allweddol y mae ymarferwyr yn ei chwarae yn natblygiad cynnar a dysgu plant a babanod. Rydym am sicrhau bod y gweithlu'n teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gydnabod am y rôl hanfodol y mae'n ei chwarae ym mywydau plant. Rydym am sicrhau bod y rhai sy'n ystyried ymuno â'r sector yn ei ystyried yn lle da i weithio. Lle sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu ac amgylchedd gwaith teg a gwerth chweil. Mae'r diweddariad hwn yn nodi'r ffordd rydym wedi gweithio i wneud hynny a'r ffordd y byddwn yn parhau i weithio i wneud hynny.



# Camau allweddol hyd at 2027

Rydym wedi nodi'r hyn a gyflawnwyd hyd yma, ond mae'r cynnydd yn barhaus. Mae camau pellach y byddwn yn eu cymryd dros gyfnod y cynllun 10 mlynedd. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn yr adrannau canlynol o dan y themâu allweddol:

- **Denu Recriwtiaid Newydd o Ansawdd Uchel**
- **Codi Safonau a Sgiliau**
- **Buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd yn y sector**



## Denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel

Mae denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel yn dal i fod yn her sylweddol i'r sector, ac mae cadw staff yn bryder cynyddol. Mae gwaith wedi'i wneud i hyrwyddo'r sector dros y blynyddoedd diwethaf, ond gwyddom fod mwy y gallwn ei wneud i herio canfyddiadau am yrfa ym maes gofal plant, a'u newid. Rydym am sicrhau bod gyrfa ym maes gofal plant a gwaith chwarae yn ddewis hirdymor i amrywiaeth eang o unigolion.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddenu a chadw staff o ansawdd uchel o gefndiroedd amrywiol sy'n meddu ar y gwerthoedd cywir i weithio yn y sector hynod werthfawr hwn.

Ein huchelgais gyffredinol yw i'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu gofal plant wneud hynny am eu bod yn ei ystyried yn ddewis gyrfa cadarnhaol a deniadol lle y byddant yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

**SBOTOLAU: Gwaith teg**

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Gwaith Teg Gofal Plant a Gwaith Chwarae Partneriaeth Gymdeithasol a fydd yn ystyried materion allweddol ar gyfer y gweithlu, megis recriwtio, cadw, datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa, ac yn ystyried y camau y gellir eu cymryd i ddatblygu ymarfer gwaith teg ym mhob rhan o'r sector.

Caiff y Fforwm ei sefydlu yn 2024 a bydd yn cytuno ar flaenraglen waith a fydd yn amlinellu'r canlyniadau diriaethol a fydd yn deillio o'r Fforwm i gryfhau ymarfer gwaith teg ym mhob rhan o'r sector.

Bydd aelodau'r grŵp yn cynnwys cyrff ambarél gofal plant a gwaith chwarae, awdurdodau lleol fel comisiynwyr gwasanaethau gofal plant, undebau llafur a Llywodraeth Cymru.

**Rydym yn cydnabod y sector yn parhau i wynebu problemau recriwtio a chadw. Yn ychwanegol at greu Fforwm Gwaith Teg i ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r gweithlu yn fanylach, byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith pellach mewn nifer o feysydd.**

**Er mwyn denu recriwtiaid newydd** i'r sector, byddwn yn parhau i hyrwyddo gweithio ym maes gofal plant a chwarae drwy lwybrau megis GofalwnCymru, ReAct+, y Warant i Bobl Ifanc a Cymru'n Gweithio. Byddwn yn cynyddu nifer y llysgenhadon gofal plant a gwaith chwarae er mwyn sicrhau bod pob rhanbarth yng Nghymru yn cael ei gefnogi gan Lysgennad. Caiff gwaith ymgysylltu ag ysgolion, sefydliadau AB a'r cyhoedd ei gynnal i hyrwyddo'r sector gofal plant a gwaith chwarae.

**Er mwyn denu gweithlu amrywiol**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a lleoliadau i ddenu recriwtiaid o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn datblygu deunyddiau hyrwyddo sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth ac yn gweithio gyda grwpiau cymunedol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r rhwystrau i weithio yn y sector a'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i'w dileu.

**Er mwyn helpu i dyfu'r gweithlu Cymraeg**, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddenu mwy o recriwtiaid sy'n siarad Cymraeg i'r sector drwy gymorth ar gyfer cymwysterau Cymraeg a chymorth Cymraeg i ymarferwyr.

**Er mwyn cefnogi newydd-ddyfodiaid**, byddwn yn helpu gwarchodwyr plant a chynorthwywyr gwarchod plant newydd i ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt. Byddwn hefyd yn ystyried argymhellion y prosiect peilot mapio gofal plant, sy'n ystyried hyblygrwydd i gydnabod cymwysterau o sectorau eraill.

**Er mwyn cadw'r staff** sydd gennym yn y sector, byddwn yn cefnogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal sesiynau sydd â'r nod o gefnogi datblygiad staff, yn ogystal â'u llesiant. Byddwn hefyd yn datblygu llwybrau gyrfa a chynnydd sy'n amlinellu'r camau nesaf posibl i'r rhai sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd.

## Codi safonau a sgiliau

Erys codi safonau a sgiliau yn uchelgais allweddol er mwyn datblygu gweithlu gofal plant a chwarae o ansawdd uchel. Mae tystiolaeth yn dangos yn glir fod darpariaeth o ansawdd uchel yn sicrhau mwy o fanteision i'n plant ac yn cael dylanwad mawr ar eu cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Pan fydd y gweithlu yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd i gynnig darpariaeth gofal plant a gwaith chwarae o ansawdd uchel, gall yr effeithiau ar blant fod yn fawr, yn enwedig i blant o gefndiroedd dan anfantais, plant sy'n anabl neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ein huchelgais gyffredinol yw helpu i ddiwallu anghenion dysgu a datblygu aelodau'r gweithlu parhau fel y gallant wireddu eu potensial yn llawn.

**SBOTOLAU: Arweinwyr**

Yn unol â'n huchelgais i greu gweithlu medrus o ansawdd uchel, byddwn yn helpu i ddatblygu arweinwyr ym mhob rhan o'r sector gofal plant a gwaith chwarae.

Fel y nodwyd yn y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru, gwyddom fod ansawdd yr arweinyddiaeth mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn effeithio ar ganlyniadau plant a llesiant a datblygiad staff, a bod buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu arweinwyr yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol parhaus.

Rydym am gefnogi arweinwyr ar bob lefel i ganolbwyntio ar y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau y gallant ddatblygu eu hymarfer a'u sgiliau yn barhaus, a sicrhau bod arweinwyr yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol sydd ei angen arnynt i greu lleoliadau o ansawdd uchel i blant.

Bydd ein cymorth i ddatblygu arweinwyr yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i hyrwyddo cymwysterau arweinyddiaeth a rheoli Lefel 4 a Lefel 5 gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg.
- Cynnal sesiynau datblygiad proffesiynol i arweinwyr a rheolwyr.
- Hyrwyddo adnodd ymarfer myfyriol ar gyfer chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar drwy weminarau ac arolygon er mwyn helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r adnodd yn ogystal â deall sut mae'r sector wedi ymateb i gyflwyno'r adnodd ei hun.

**Mae cefnogi ymarferwyr newydd i feithrin eu sgiliau a galluogi staff presennol i ddatblygu'n barhaus yn hanfodol i wneud yn siŵr bod gan Gymru weithlu gofal plant a gwaith chwarae cryf o ansawdd uchel. Bydd ein cymorth i arweinwyr yn sicrhau bod y rhai sy'n arwain ym mhob rhan o'r sector yn meddu ar y sgiliau i gefnogi'r rhai y maent yn cydweithio â nhw, ond byddwn yn cymryd camau i gefnogi pob agwedd ar feithrin sgiliau yn y sector.**

**Er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y cymwysterau priodol,** byddwn yn parhau i gefnogi cyfleoedd i ennill cymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant a Gwaith Chwarae dwyieithog.

**Er mwyn sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ofalu am blant a meithrin eu potensial**, byddwn yn cefnogi hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu a chymorth cyntaf pediatrig.

**Er mwyn sicrhau ein bod yn helpu staff i feithrin eu sgiliau Cymraeg**, byddwn yn cefnogi cyrsiau Cymraeg ar gyfer ymarferwyr gofal plant drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn ariannu cydlynydd i ddarparu cymorth allweddol i ddysgwyr a'u helpu i achub ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau.

**Er mwyn cefnogi a chynyddu amrywiaeth**, bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid yn y sector, yn ceisio barn staff o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ar eu profiadau o weithio yn y sector ac yn cyd-lunio cynigion i wella eu profiadau a'u rhagolygon gyrfa.

**Er mwyn hyrwyddo cynhwysiant**, byddwn yn parhau i hyrwyddo adnoddau DAPRL ac adeiladu arnynt, ystyried cyfleoedd i ymgorffori egwyddorion gwrth-hiliol mewn cymwysterau presennol, a chefnogi dull cynhwysol o ddarparu gofal plant a chwarae.

**Er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu**, byddwn yn ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflenwi dysgu yn seiliedig ar anghenion y sector.

**Er mwyn datblygu'r nod o gydnabod y sector gofal plant a gwaith chwarae fel proffesiwn** byddwn yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ar gofrestru'n broffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae sy'n ceisio barn y sector ar gofrestru'r gweithlu.

## Buddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd yn y sector

Mae cynaliadwyedd lleoliadau yn dal i fod yn fater allweddol. Rydym am sicrhau bod gennym sector cryf sy'n cynnwys digon o leoliadau o bob math i gefnogi plant Cymru. Byddwn yn gweithio i gefnogi lleoliadau i dyfu a ffynnu, er mwyn eu galluogi i ddiwallu anghenion teuluoedd a phlant.

Ein huchelgais gyffredinol yw defnyddio'r holl sbardunau sydd ar gael i gynnal a thyfu gweithlu gofal plant a gwaith chwarae o ansawdd uchel.

### SBOTOLAU: Ehangu rhaglen Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw. Ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio â Plaid Cymru, rydym wedi ymestyn yr ymrwymiad hwn i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Mae hyn yn rhan o weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru i ddatblygu darpariaeth chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar (sef addysg a gofal plentyndod cynnar yn flaenorol).

Yn ystod 2023-24 a 2024-25, byddwn yn buddsoddi £46 miliwn i ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg er mwyn helpu i sicrhau effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywydau'r plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Yn 2023-24, cefnogwyd mwy na 4,500 o blant dwy flwydd oed ychwanegol i gael gofal plant o ansawdd uchel Dechrau'n Deg. Yn 2024-25, rydym yn disgwyl helpu tua 5,200 o blant dwy oed ychwanegol i gael gofal plant o ansawdd uchel.

**Rydym yn cydnabod mai dim ond os bydd gennym sector cryf a all ein helpu i gyflawni dros deuluoedd Cymru y gall ein nodau ar gyfer gofal plant a gwaith chwarae a'n gweledigaeth ar gyfer chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar gael eu gwireddu. Drwy ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, bydd mwy o ddarpariaeth wedi'i hariannu gan y llywodraeth ar gael. Ond ochr yn ochr â hyn, mae angen inni sicrhau ein bod yn cefnogi galluogrwydd y sector, nawr ac yn y dyfodol.**

**Er mwyn helpu i dyfu'r sector cyfrwng Cymraeg**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y clybiau ar ôl ysgol a gwarchodwyr cyfrwng Cymraeg.

**Er mwyn helpu lleoliadau i fod yn ariannol gynaliadwy**, byddwn yn adolygu'r rhyddhad ardrethu busnes o 100% a chyfradd y Cynnig Gofal Plant yn unol â'r cylch adolygu y cytunwyd arnom gan gysylltu â fforwm gwaith teg gofal plant a gwaith chwarae ein partneriaeth gymdeithasol.

**Er mwyn sicrhau y gall lleoliadau gael cyngor busnes ar gynaliadwyedd**, byddwn yn gweithio gyda Busnes Cymru i hyrwyddo a darparu cymorth pwrpasol i leoliadau gofal plant a gwaith chwarae. Bydd hyn yn adeiladu ar dudalennau gwe, sesiynau arbenigol a chyngor pwrpasol presennol.

**Er mwyn cefnogi a thyfu'r gweithlu gwarchod plant yng Nghymru**, byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Adolygu Argymhellion ar gyfer Gwarchod Plant i fynd ar drywydd canfyddiadau'r Adolygiad o Warchod Plant.

**Er mwyn helpu i ddatblygu polisi yn y dyfodol**, byddwn yn cwblhau prosiect i fapio a modelu'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae er mwyn deall cyfansoddiad a strwythur presennol y gweithlu a'i anghenion ar gyfer y dyfodol.

**Er mwyn helpu i dyfu sector amrywiol**, byddwn yn sefydlu gweithgor penodol lle bydd rhanddeiliaid yn y sector yn gweithio ochr yn ochr â phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i nodi'r rhwystrau a wynebir gan y cymunedau hyn i ddefnyddio gwasanaethau. Bydd y gweithgor yn argymell ffyrdd y gellir dileu rhwystrau, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i ddefnyddio gwasanaethau.